COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 3ydd o ORFFENNAF 2017 YN FESTRI SALEM, PEDAIR HEOL AM 7.00.
Presennol: Ian Evans (yn y gadair),Alan Lewis,Heddwyn Jones,Tyssul Evans,Aled Williams,Geoff Hewitt, Meic Bowen,Tracey James a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Margaret Rees, Linda Williams,Richard Thomas a Geraint Rosser.

Materion Personol

1751 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.Mynegwyd pryder bod y Cynghorydd Richard Thomas yn yr Ysbyty unwaith eto a phenderfynwyd danfon ein cyfarchion am wellhad buan ato.

1752 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 05/06/2017 fel rhai cywir.

1753 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 1739 - Rheilffordd Pontiets – Gobeithio y bydd y gwaith wedi gorffen cyn bo hir

Tud 1. Cofnod Rhif 1739 - Toiledau'r Meinciau – Penderfynwyd derbyn cais Miss Paula Clarke, Carwe am Swydd Glanhawr y Toiledau.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1754 Bethel Llangyndeyrn - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

1755 Parc Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £700.

1756 Urdd Gobaith Cymru – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

1757 Clwb Pêl-droed Carwe - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1758 Eglwys y Santes Fair, Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

Cynghorwyr Meic Bowen a Geoff Hewitt yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y Cyfarfod

1759 Côr Merched Glannau'r Gwendraeth - Recordio'r data ar gyfer y Defibrillator - Enwebwyd y Clerc.

1760 Côr Merched Glannau'r Gwendraeth - Cais am Blât y Cyngor i'w gyflwyno fel rhodd I Gôr Meibion y Pysgotwyr yn Looe,Cernyw - .Penderfynwyd cyflwyno Plât i'r Côr.

Meic a Geoff yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Ceisiadau Cynllunio

1761 Ceisiadau Cynllunio

a) Cais Rhif W/35760 - R.Wren & Mr. B.Davies - Tir cyferbyn a 6,Heol Mansant, Pontiets- Tŷ - Dim Gwrthwynebiad .

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1762 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mehefin 2017.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

1763 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £388.61 (Mis Mehefin)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mehefin)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £100.00 (Mis Mehefin)
ch) HMRC (Treth)- £77.60 (Mis Mehefin)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mehefin)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £45.91 (Mis Mehefin)
e) Treuliau'r Syrfëwr - £35.00
f) Ffon y Syrfëwr - £40.00
ff) Trydan i Focs y Defibrillator - £210.00
g) Arwyddion Ffordd – Plant yn Chwarae - £326.40

Yswiriant y Cyngor

1764 Awdurdodwyd y Clerc i dalu Cwmni Zurich am Yswiriant y Cyngor y swm o £1040.94 am y flwyddyn sy'n rhedeg o 13/07/2017 hyd at 12/07/2018. Hefyd penderfynwyd gwahodd rhywun o Gwmni Zurich i adolygu gwerth yr Offer Chwarae ym Marc Pontiets, Gwynfryn a Chrwbin.

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid – 22/06/2017

1765 Cyflog y Clerc - Derbyniwyd argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ein bod yn codi cyflog y Clerc a hefyd yn ychwanegu at gydnabyddiaeth y Syrfëwr.

1766 Toiledau'r Meinciau – Ein bod yn derbyn yr amcan-brys o £5596.09 + TAW am newid y drysau ynghyd a chloeon amser (Y Cadeirydd,Is-gadeirydd a'r Clerc i gael awdurdod i ddelio a'r mater hwn).

1767 Llofnodi Sieciau - Y Cynghorwyr Tracey James,Margaret Rees,Alan Lewis i lofnodi sieciau yn ogystal â'r Cynghorwyr Tyssul Evans,Linda Williams,Geoff Hewitt a'r Clerc (3 llofnod ar bob siec).

Parc Gwynfryn

1768 Derbyniwyd cwyn ynglŷn â sefyllfa'r Parc. Awdurdodwyd y Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Clerc i edrych ar y mater hwn.

Parc Pontiets

1769 Derbyniwyd cwyn ynglŷn â sefyllfa'r Parc. Mae'r Cadeirydd a'r Clerc, ynghyd a'r Cynghorwyr Linda Williams a Tyssul Evans eisioes wedi trefnu gwaith adnewyddu yn y Parc dros y dyddiau nesaf.

Gwyliau Mis Awst

1770 Gan na fydd Cyfarfod o'r Cyngor ym Mis Awst rhoddwyd awdurdod i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc i ddelio a materion brys ac adrodd yn ôl i'r Cyngor ym Mis Medi.

Materion Cynghorwyr

1771 Heddwyn – Gofyn i'r Cyngor Sir trin y cloddiau trwy'r Plwyf.

1772 Ian - Cysylltu â'r Awdurdod Tan i weld a oedd Holiadur ar gael ynglŷn â'r gwasanaeth yn y dyfodol.

1773 Ian - Penderfynwyd sefydlu Is-bwyllgor o'r Cadeirydd,Is-gadeirydd,Cynghorydd Heddwyn Jones a'r Clerc i edrych am ffynonellau cyllid i wneud gwaith ar y droedffordd a.y.y.b.yn ardal Pontnewydd.

Cyfarfod nesaf:- 4ydd o Fedi 2017 yn Neuadd yr Eglwys, Llangyndeyrn am 7.00 o'r gloch. (Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……